# Heriau a dewisiadau – ymgynghoriad ar faterion rheoli dŵr sylweddol Cymru

Mae dŵr yn adnodd naturiol hanfodol i'r amgylchedd a phobl. Mae dŵr yn creu ac yn cynnal yr ecosystemau y mae pob peth byw yn dibynnu arnynt. Mae'n hanfodol i'r economi ac ar gyfer iechyd ac fe'i defnyddir i gynhyrchu pŵer, rhedeg diwydiannau a thyfu bwyd. Mae addasiadau ffisegol yn lleihau amrywiaeth a gwydnwch ein dyfroedd yn ddifrifol. Mae ardaloedd gwledig, dŵr gwastraff, trefi, trafnidiaeth a mwyngloddiau segur yn ffynonellau llygredd megis cemegion, metelau, maetholion a bacteria ac, yn ogystal â hyn, gall plastigion a microplastigion fod yn niweidiol i bobl a byd natur. Gall presenoldeb rhywogaethau estron goresgynnol gael effeithiau ecolegol ac economaidd sylweddol.. Rhagwelir y bydd newid hinsawdd yn achosi tymereddau cynyddol, glawiad mwy dwys a chyfnodau estynedig o dywydd sych.

Mae effaith gyfunol y materion hyn a'r galw cystadleuol am ddŵr yn golygu bod ein hecosystemau dŵr dan bwysau. Mae rhywogaethau eang eu lledaeniad, gan gynnwys eogiaid a brithyllod môr, yn profi dirywiad trychinebus; rhagwelir y bydd eogiaid wedi diflannu'n lleol o rai o afonydd Cymru erbyn 2030.

Mae ein hymchwiliadau a'n hymchwil drwy'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn dweud wrthym beth yw'r heriau, ac rydym am rannu hyn â chi. Mae angen i ni barhau i gydweithio i gymryd camau brys a chydweithredol i fynd i'r afael â'r materion hyn. Drwy rannu beth yw'r prif heriau sy'n wynebu ein hamgylchedd dŵr, rydym am glywed gennych chi am sut y gellir gwella ein dyfroedd.

**Dweud eich dweud ar ddyfodol dŵr yng Nghymru**

Dyma lle rydym yn ceisio eich barn ar y materion allweddol sy'n effeithio ar ein hamgylchedd dŵr a'r camau gweithredu sydd eu hangen i fynd i'r afael â nhw. Bydd eich mewnbwn yn helpu i lunio dyfodol rheoli dŵr yng Nghymru.

## Heriau a dewisiadau


Dyma'r ail ymgynghoriad mewn cyfres o dri ymgynghoriad a fydd yn helpu i lywio'r gwaith o ddiweddaru'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd ar gyfer y cyfnod rhwng 2027 a 2033. Bydd y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd hyn yn amlinellu'r mesurau sydd eu hangen i amddiffyn ac adfer dŵr, o'r ffynhonnell i'r môr. Disgwylir i fersiynau drafft o'r cynlluniau wedi'u diweddaru gael eu rhyddhau ar gyfer ymgynghoriad yn 2026. Byddwn hefyd yn cyhoeddi trosolwg o'n canfyddiadau drwy ein tudalen Gofynnon Ni, Dwedoch Chi, Gwnaethom Ni https://ymgynghori.cyfoethnaturiol.cymru/we_asked_you_said/ ar ôl i'r ymgynghoriad hwn ddod i ben.

Cyhoeddwyd adolygiad y Comisiwn Dŵr Annibynnol o'r sector dŵr https://www.gov.uk/government/publications/independent-water-commission-review-of-the-

[water-sector](water-sector) ar 21 Gorffennaf 2025. Argymhellodd hwn adolygiad o Reoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer Cymru a Lloegr. Bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu sut mae'n dymuno gweithredu argymhellion y Comisiwn Dŵr Annibynnol.Gallai hyn newid sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cyflawni Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd Cylch 4, sy'n cwmpasu 2027 i 2033, y bydd yr ymgynghoriad hwn yn eu llywio. Nid yw canfyddiadau'r Comisiwn Dŵr Annibynnol yn newid yr ymgynghoriad hwn, sy'n ymwneud â'n materion rheoli dŵr sylweddol a'r hyn y mae'n ei olygu, ond byddant yn effeithio ar sut a phryd y bydd camau gweithredu'n cael eu cymryd. Bydd CNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, yn ogystal â DEFRA ac Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer cyrff dŵr sy'n ymestyn dros i ffin i Loegr, i sicrhau bod ein Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn y dyfodol yn cyflawni'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer ein hamgylchedd dŵr.

Mae'n ddefnyddiol edrych ar yr ymgynghoriad hwn ar y cyd â'n Map Stori https://gisportal.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/portal/apps/storymaps/stories/3024a6fa7f444cb0956621013b8ea5b0.

# Ardaloedd basn afon yng Nghymru




Dyma'r ymgynghoriad statudol ar gyfer Ardal Basn Afon Dyfrdwy (gan gynnwys cyrff dŵr Lloegr) ac Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru.

Mae Ardal Basn Afon Hafren yn cynnwys ardaloedd o ddalgylchoedd afon Gwy ac afon Hafren sydd yng Nghymru, yn ogystal ag afon Wysg, afon Taf ac afon Elái, ac rydym wedi rhannu data ar gyfer yr ardal hon â chi. Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n rheoli'r ymgynghoriad statudol ar gyfer Ardal Basn Afon Hafren, gan gynnwys cyrff dŵr Cymru, drwy ei hymgynghoriad cyfochrog, a fydd ar agor o fis Tachwedd 2025. Mae rhagor o wybodaeth am faterion rheoli dŵr sylweddol yn Lloegr ar gael yma Significant water management issues - Environment Agency - Citizen Space.

Fodd bynnag, os ydych chi'n byw neu'n gweithio yn y rhan o Ardal Basn Afon Hafren sydd yng Nghymru a bydd well gennych ymateb i gwestiynau ymgynghori CNC, yna parhewch i gwblhau'r ymgynghoriad hwn.

**Cwestiwn: I ba ardal basn afon y mae eich atebion yn berthnasol?**

**Cymru gyfan**

**Dyfrdwy (gan gynnwys cyrff dŵr yn Lloegr)**

**Hafren (Cymru yn unig)**

**Gorllewin Cymru**

# Materion rheoli dŵr sylweddol – yr heriau

Mae ein hymchwiliadau i Reoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr wedi nodi rhai o'r materion sylweddol sy'n effeithio ar ein cyrff dŵr. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Addasiadau ffisegol
- Llygredd o ardaloedd gwledig
- Llygredd o ddŵr gwastraff
- Llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth
- Llygredd o fwyngloddiau metel segur
- Newidiadau i lif naturiol dŵr a'i lefelau

Ar gyfer y materion a restrir uchod, rydym wedi darparu rhai ffigurau sy'n dangos ble maent wedi'u nodi fel rheswm dros beidio â chyrraedd statws cyffredinol da. Am wybodaeth fanylach, gan gynnwys mapiau a graffiau rhyngweithiol, gweler ein hadnoddau cysylltiedig yma: https://gisportal.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/portal/apps/storymaps/stories/3024a6fa7f444cb0956621013b8ea5b0. Rydym wedi cyhoeddi gwybodaeth debyg o'r blaen fel rhan o Gynlluniau Rheoli Basnau Afonydd blaenorol, ni ellir cymharu'r data hwn yn uniongyrchol oherwydd newidiadau mewn methodoleg.

Gall fod gan gorff dŵr un neu fwy o resymau dros beidio â chyrraedd statws da cyffredinol. Rydym yn cyflwyno ffigurau ar gyfer Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru ac Ardal Basn Afon Dyfrdwy, sef ffocws yr ymgynghoriad hwn, yn ogystal â ffigurau cryno ar gyfer Cymru gyfan. Mae afon Dyfrdwy yn ardal basn afon drawsffiniol ac mae cyrff dŵr sydd wedi'u lleoli yn Lloegr wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau ar gyfer afon Dyfrdwy. Mae ffigurau cryno ar gyfer Cymru yn cynnwys pob corff dŵr yn Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru ynghyd â chyrff dŵr Cymru o fewn Ardal Basn Afon Dyfrdwy ac Ardal Basn Afon Hafren.

Yn ogystal â'r rhain, mae materion sylweddol eraill, ac mae'r rhain yn tueddu i fod yn fwy cyffredin. Maent yn adeiladu ar ein set ddata ar gyfer Rheoliadau'r Gyfarwyddeb

Fframwaith Dŵr neu’n hysbys drwy faterion byd-eang ehangach ac ymchwil ehangach, sef:

- Yr argyfwng hinsawdd
- Yr argyfwng byd natur
- Cemegion a halogion sy’n dod i’r amlwg
- Plastigion a microplastigion
- Rhywogaethau estron goresgynnol
- Maetholion
- Bacteria

# Gweithio gyda’n gilydd i ddatrys yr heriau hyn

Mae’r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd cyfredol (2021–2027) yn nodi rhaglen gynlluniedig o fesurau sydd gyda’i gilydd yn anelu at fynd i’r afael â’r heriau hyn. Mae angen y mesurau hyn i sicrhau bod ein dyfroedd yn cyflawni statws/potensial da, atal dirywiad, a/neu gyfrannu at gyflawni amcanion ar gyfer ardaloedd gwarchodedig, gan gynnwys dyfroedd ymdrochi, dyfroedd pysgod cregyn, dyfroedd yfed, ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) sy’n ddibynnol ar ddŵr. Rydym yn cymryd cyfrifoldeb am rai o’r mesurau hyn ac yn cynhyrchu Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd, ond mae rhai hefyd yn cael eu harwain gan sefydliadau eraill megis Llywodraeth Cymru, cwmnïau dŵr, a’r Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio. Mae llawer hefyd yn cael eu darparu trwy bartneriaethau, ac mae gan bob un ohonom gyfraniad i’w wneud.

Mae crynodeb o’r mesurau cyfredol wedi’i gynnwys o dan bob mater ac mae manylion llawn ar gael yma: https://cyfoethnaturiolcymru.sharefile.eu/share/view/sc0c2a20ae9c2429394326eb75e0eda5d . Mae cynnydd yn erbyn y mesurau hyn wedi cael ei adolygu’n ddiweddar a gellir dod o hyd i fwy o fanylion yn Adroddiad Adolygu Cynnydd Rhaglen Fesurau Interim y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd https://cyfoethnaturiol.cymru/evidence-and-data/research-and-reports/water-reports/river-basin-management-plans/cycle-3-river-basin-management-plans-2021-to-2027-interim-programme-of-measures-progress-review/?lang=cy. Mae'r Rhaglen o Fesurau yn cael ei hadolygu, bydd eich ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn helpu i lywio'r hyn y gellid ei gynnwys yng Nghynlluniau Rheoli Basn Afon 2027-2033.

**Er mwyn cefnogi’n well sut rydym yn cyflawni’r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd, sut hoffech chi weld mesurau’n cael eu holrhain a’u gwerthuso? Sut ddylem ni adrodd ar gynnydd? A beth allech chi gyfrannu at hyn?**

# Addasiadau ffisegol

Mae addasiadau ffisegol yn cyfeirio at newidiadau a wneir i ffurfiau a phrosesau naturiol afonydd, llynnoedd, aberoedd a dyfroedd arfordirol. Mae rhywogaethau ym mhob corff dŵr yn dibynnu ar brosesau naturiol oherwydd eu bod yn darparu ac yn cynnal cynefin – mae

addasiadau ffisegol yn effeithio ar wydnwch ecosystemau dŵr croyw. Gall prosesau naturiol gynnal eu hunain fel arfer, heb fod angen fawr ddim ymyrraeth reoli, os o gwbl.

Ar raddfa Cymru gyfan, mae addasiadau ffisegol i ddyfroedd wyneb (rhwystrau i fudo pysgod, rheoli adnoddau dŵr, amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn arfordiroedd, trefoli, draenio tir, mordwyo, porthladdoedd, harbwrs a hamdden) yn bwysau allweddol a'r prif reswm dros beidio â chyrraedd statws da o dan Reoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae gwaith adfer ar y gweill ond mae angen iddo gynyddu o ran maint a chyflymder er mwyn cadw i fyny â'r dirywiad ffisegol parhaus.

Mae addasiadau ffisegol yn effeithio ar 23% (212) o gyrff dŵr ledled Cymru. Gellir dosbarthu hyn yn dair ardal basn afon Cymru fel a ganlyn: Ardal Basn Afon Dyfrdwy – 24% (23) o gyrff dŵr, Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru – 16% (93) o gyrff dŵr, y rhan o Ardal Basn Afon Hafren sydd yng Nghymru – 35% (100) o gyrff dŵr.

Mae rhagor o wybodaeth am addasiadau ffisegol a sut maen nhw'n effeithio ar ein dyfroedd wedi'i chynnwys yn y map stori cysylltiedig https://gisportal.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/portal/apps/storymaps/stories/3024a6fa7f444cb0956621013b8ea5b0.

## Crynodeb o'r camau gweithredu cyfredol

Mae rhaglenni a gweithgareddau allweddol yn cynnwys y canlynol: gweithgareddau rheoli'r perygl o lifogydd, polisïau'r Cynllun Rheoli Traethlin ar gyfer rheoli amddiffynfeydd arfordirol, y Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd, y Rhaglen Pysgodfeydd Cynaliadwy, Eogiaid Yfory, rhaglenni adfer cynefinoedd pysgodfeydd mewndirol, gweithredu'r Rheoliadau Llyswennod, cael gwared ar rwystrau i symudiad pysgod sy'n gysylltiedig ag asedau cwmnïau dŵr, y Rhaglen Adfer Afonydd.

- Dyma'r mesurau:Lle bo modd, cael gwared ar adeileddau neu addasiadau niweidiol yr ydym wedi'u hetifeddu.
- Lliniaru effeithiau niweidiol addasiadau sydd â defnyddiau dynol hanfodol, megis ar gyfer cyflenwad dŵr cyhoeddus neu amddiffynfeydd arfordirol, wrth amddiffyn y defnydd ar yr un pryd.
- Adfer prosesau naturiol afonydd, a chynyddu maint clustogfeydd a choridorau glan afonydd ar hyd dyfroedd mewndirol i'w gwneud yn fwy gwydn
- Sicrhau nad yw addasiadau yn y dyfodol yn achosi dirywiad.

# Llygredd o ardaloedd gwledig

Gall arferion rheoli tir gwael arwain at faetholion, cemegion a gwaddodion yn effeithio ar yr amgylchedd dŵr. Mae hyn oherwydd dŵr ffo o gaeau, seilwaith fferm, dipio defaid a sathru tir yn ogystal â gweithgareddau gwaith coed.

Mae llygredd o ardaloedd gwledig yn effeithio ar amrywiaeth eang o'r ardaloedd gwarchodedig ledled Cymru o'r ffynhonnell i'r môr. Mae ardaloedd gwarchodedig dŵr yfed, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n ddibynnol ar ddŵr, gan gynnwys afonydd, llynnoedd,

aberoedd a mawnogydd, i gyd dan bwysau oherwydd llygredd gwasgaredig. Yn ogystal, mae llawer o arfordir Cymru wedi'i ddynodi'n ddyfroedd ymdrochi, ardaloedd gwarchodedig dŵr pysgod cregyn neu Ardaloedd Morol Gwarchodedig, weithiau'r tri, ac yn cael y dŵr ffo o'r tir. Mae ein hardaloedd gwarchodedig dŵr yfed dŵr daear, o dan Gymru gyfan, hefyd dan bwysau oherwydd llygredd gwledig, yn enwedig o faetholion a chemegion.

Mae llygredd o ardaloedd gwledig yn effeithio ar 21% (197) o gyrff dŵr ledled Cymru. Gellir dosbarthu hyn yn dair ardal basn afon Cymru fel a ganlyn: Ardal Basn Afon Dyfrdwy – 18% (17) o gyrff dŵr, Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru – 19% (107) o gyrff dŵr, y rhan o Ardal Basn Afon Hafren sydd yng Nghymru – 26% (73) o gyrff dŵr. O'r rhain, mae'r mwyafrif, dros 85%, yn cael eu priodoli i amaethyddiaeth.

## Crynodeb o'r camau gweithredu cyfredol

Mae rhaglenni a gweithgareddau allweddol yn cynnwys: dylanwadu ar themâu rheoli tir yn gynaliadwy yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, Prosiect Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, rheoliadau fel Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, Rhaglen Dileu'r Clafr, strategaeth Coetiroedd i Gymru Llywodraeth Cymru, ymwybyddiaeth o ganllawiau Safon Coedwigaeth y DU (gan gynnwys canllawiau "coedwigoedd a dŵr") a gweithredu'r canllawiau hyn, a chanllawiau ymarfer.

- Dyma'r mesurau:Cryfhau mecanweithiau rheoleiddiol, ariannol a gweithredol i gefnogi sector amaethyddol cynaliadwy sy'n amddiffyn yr amgylchedd dŵr.
- Cyflawni Rhaglen Maetholion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig CNC, gan barhau i nodi cyfleoedd a chyflawni ymyriadau i wella ansawdd dŵr drwy fyrddau rheoli maetholion a phartneriaethau dalgylch.
- Ar gyfer ecosystemau sy'n ddibynnol ar ddŵr daear sydd mewn perygl o fewnbynnau dŵr daear sy'n llawn maetholion, byddwn yn parhau i edrych ar gyfleoedd i leihau mewnbynnau maetholion.
- Lleihau'r angen i ddefnyddio meddyginiaeth filfeddygol yn y dyfodol a gwella rheoli gwastraff amaethyddol trwy fynd â dip wedi'i ddefnyddio i gyfleuster trin yn lle ei daenu ar y tir.
- Rheoli Ystad Goetir Llywodraeth Cymru i fodloni canllawiau coedwig a dŵr Safon Coedwigaeth y DU o leiaf.

# Llygredd o ddŵr gwastraff

Mae dŵr gwastraff yn cynnwys dŵr wedi'i drin o weithfeydd trin dŵr gwastraff, gollyngiadau ysbeidiol heb eu trin o orlifoedd storm, carthffosiaeth o dai sydd wedi'u cysylltu'n anghywir â draeniau dŵr wyneb yn hytrach na charthffosydd, a thanciau carthion. Gall gynnwys llawer iawn o faetholion (megis ffosfforws a nitrogen), amonia, metelau, a sylweddau niweidiol eraill, gan gynnwys feirysau a bacteria. Gall y rhain gael effaith andwyol ar gynefinoedd ac effaith sylweddol ar ein defnydd o ddŵr, yn enwedig y defnydd hamdden o ddyfroedd ymdrochi a dyfroedd pysgod cregyn. Gall gollyngiadau heb eu rheoleiddio i'r ddaear a charthffosydd tanddaearol sy'n gollwng achosi llygredd tarddle penodol a llygredd gwasgaredig o ddŵr daear.

Bydd gwella'r gwaith o drin elifion a rheoleiddio gollyngiadau anghyfreithlon o danciau carthion preifat yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar yr amgylchedd dŵr. Bydd hyn yn sicrhau bod ein cyflenwad dŵr yfed yn cael ei amddiffyn rhag effeithiau niweidiol llygredd, a hefyd o fudd i gynefinoedd a llawer o ardaloedd gwarchodedig, gan gynnwys dyfroedd ymdrochi, dyfroedd pysgod cregyn, safleoedd Ewropeaidd, ac ardaloedd sensitif o dan y Rheoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol.

Mae llygredd o ddŵr gwastraff yn effeithio ar 17% (154) o gyrff dŵr ledled Cymru. Gellir dosbarthu hyn yn dair ardal basn afon Cymru fel a ganlyn: Ardal Basn Afon Dyfrdwy – 13% (12) o gyrff dŵr, Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru – 16% (91) o gyrff dŵr, y rhan o Ardal Basn Afon Hafren sydd yng Nghymru – 18% (51) o gyrff dŵr. Y rhan fwyaf o'r problemau hyn yw gollyngiadau o weithfeydd trin dŵr gwastraff a gorlifoedd storm.

## Crynodeb o'r camau gweithredu cyfredol

Mae rhaglenni a gweithgareddau allweddol yn cynnwys: rhaglenni buddsoddi cwmnïau dŵr, gan gynnwys buddsoddiad i fodloni safonau ffosffad ar gyfer afonydd ACA, cynlluniau draenio a rheoli dŵr gwastraff, rheoleiddio'r diwydiant dŵr, y Cynllun Gweithredu Gorlifoedd Storm, Rhaglen Afonydd ACA, mynd i'r afael â chamgysylltiadau, a systemau draenio cynaliadwy.

- Dyma'r mesurau:Sicrhau bod systemau carthffosiaeth, gan gynnwys gorlifoedd storm, yn cael eu cynnal a'u cadw neu eu gwella fel eu bod yn gweithredu'n effeithiol a bod eu heffaith ar yr amgylchedd dŵr, o'r ffynhonnell i'r môr, yn cael ei lleihau i'r lleiafswm.
- Sicrhau bod cwmnïau dŵr yn ymchwilio i weithrediad ac effaith amgylcheddol pob gorlif storm yng Nghymru, ac yn gweithredu rhaglen fuddsoddi sylweddol sy'n blaenoriaethu effaith ecolegol.
- Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o effeithiau camgysylltiadau a gwaredu sylweddau niweidiol i systemau carthffosiaeth.
- Gweithio ar y cyd gyda chwmnïau dŵr i gefnogi cyflawni gwelliannau cynaliadwy i'r amgylchedd dŵr.

# Llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth

Mae trefi, dinasoedd a thrafnidiaeth yn ffynonellau sgil-gynhyrchion tanio megis cludiant ar y ffordd a thanau domestig fel llosgwyr coed. Mae allyriadau hydrocarbonau i'r awyr o gludiant ar y ffordd wedi lleihau ers y 1990au. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae poblogrwydd cynyddol tanau coed domestig wedi arafu'r dirywiad hwn. Mae'r rhain yn cael eu rhyddhau i'r awyr ac yn cyrraedd ein dyfroedd trwy ddyddodiad atmosfferig a dŵr ffo o arwynebau caled megis ffyrdd a thoeau. Yn hanesyddol, mae llygredd aer o ardaloedd trefol yng Nghymru a thramor hefyd wedi cyfrannu at asideiddio ein hucheldiroedd, ac mae effeithiau hyn yn parhau i gael eu teimlo. Mae gollyngiadau diwydiannol sy'n rhyddhau cemegion, metelau a maetholion yn halogi gwaddod ac yn niweidio pysgod ac infertebratau.

Mae rhai o'r halogion hyn yn glynu wrth waddod yn ein hafonydd, aberoedd a chyrff dŵr arfordirol. Cânt eu rhyddhau'n raddol mewn meintiau mwy pan fydd aflonyddwch megis llifoedd uchel neu garthu. Mae hyn yn cynnwys rhai o'n Hardaloedd Morol Gwarchodedig.

Mae llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth yn effeithio ar 10% (91) o gyrff dŵr ledled Cymru. Gellir dosbarthu hyn yn dair ardal basn afon Cymru fel a ganlyn: Ardal Basn Afon Dyfrdwy – 3% (3) o gyrff dŵr, Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru – 11% (61) o gyrff dŵr, y rhan o Ardal Basn Afon Hafren sydd yng Nghymru – 10% (27) o gyrff dŵr.

## Crynodeb o'r camau gweithredu cyfredol

Mae rhaglenni a gweithgareddau allweddol yn cynnwys: atal llygredd drwy gyngor a chyfarwyddyd, systemau draenio cynaliadwy a rheoli dŵr ffo wyneb, gweithio i fynd i'r afael â chamgysylltiadau, a mynd i'r afael â halogiad o safleoedd diwydiannol a gwastraff hanesyddol.

- Dyma'r mesurau:Lleihau effaith negyddol datblygiad ar yr amgylchedd dŵr drwy ymgysylltu â'r broses gynllunio neu drwy roi cyngor a chymorth i awdurdodau lleol o ran eu strategaeth archwilio tir halogedig.
- Rhoi egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth wraidd gwaith dylunio a chynllunio trefol – er enghraifft, gan ddefnyddio systemau draenio cynaliadwy.
- Parhau i reoleiddio allyriadau aer o lygryddion asideiddio er mwyn caniatáu i'r amgylchedd dŵr wella.

# Llygredd o fwyngloddiau metel segur

Yn aml, mae dŵr sy'n draenio o fwyngloddiau glo a metel hanesyddol wedi'i halogi â metelau tawdd megis haearn, plwm, copr, sinc a chadmiwm. Mae hyn effeithio ar ddŵr daear ac afonydd ac wedi hynny ar ddyfroedd aberol ac arfordirol. Gall hyn niweidio ecoleg yr afon, gan leihau poblogaethau pysgod ac amrywiaeth bywyd di-asgwrn-cefn.

Mae rhai mwyngloddiau hanesyddol yng Nghymru hefyd yn ardaloedd gwarchodedig oherwydd eu cynefinoedd unigryw, sef glaswelltir metelaidd, sy'n ddibynnol ar y metelau o'r safleoedd / pentyrrau sborion. Mae angen cynllunio gofalus a mesurau lliniaru ar gyfer adfer safleoedd o'r fath er mwyn osgoi effeithiau ar blanhigion ac infertebratau prin.

Mae mwyngloddiau segur yn effeithio ar 7% (64) o gyrff dŵr yng Nghymru. Gellir dosbarthu hyn yn dair ardal basn afon Cymru fel a ganlyn: Ardal Basn Afon Dyfrdwy – 5% (5) o gyrff dŵr, Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru – 7% (42) o gyrff dŵr, y rhan o Ardal Basn Afon Hafren sydd yng Nghymru – 6% (17) o gyrff dŵr.

## Crynodeb o'r camau gweithredu cyfredol

Mae rhaglenni a gweithgareddau allweddol yn cynnwys y canlynol: Strategaeth Mwyngloddiau Metel i Gymru; rhaglen waith yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio.

- Dyma'r mesurau:Lliniaru effeithiau mwyngloddiau segur ar yr amgylchedd dŵr drwy Raglen Mwyngloddiau Metel Cymru CNC a gweithio gyda'r Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio. Bydd yn cymryd degawdau i fynd i'r afael â'r holl faterion a

byddwn yn parhau i flaenoriaethu camau gweithredu sy'n cyflawni'r canlyniadau ecolegol, cymdeithasol ac economaidd gorau.

# Newidiadau i lif naturiol dŵr a'i lefelau

Mae dŵr yn hanfodol ar gyfer yfed, amaethyddiaeth, diwydiant, hamdden, ynni dŵr a natur. Mae'r defnyddiau hyn ar gyfer dŵr yn golygu bod llif a lefelau dŵr mewn afonydd, llynnoedd a dŵr daear wedi newid o fod yn naturiol. Mae afonydd wedi cael eu cronni i greu cronfeydd dŵr ar gyfer cyflenwad dŵr ac mae coredau wedi cael eu hadeiladu i godi lefelau dŵr i gynorthwyo tynnu dŵr at amrywiaeth o ddibenion. Pan gaiff gormod o ddŵr ei gymryd o'n hafonydd, llynnoedd a dŵr daear, gall hyn fod yn niweidiol i natur a lleihau'r dŵr sydd ar gael i bobl ei ddefnyddio.

Mae newidiadau i lif naturiol a lefelau dŵr yn effeithio ar 4% (34) o gyrff dŵr yng Nghymru. Gellir dosbarthu hyn yn dair ardal basn afon Cymru fel a ganlyn: Ardal Basn Afon Dyfrdwy – 1% (1) o gyrff dŵr, Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru – 4% (20) o gyrff dŵr, y rhan o Ardal Basn Afon Hafren sydd yng Nghymru – 5% (13) o gyrff dŵr.

## Crynodeb o'r camau gweithredu cyfredol

Mae rhaglenni a gweithgareddau allweddol yn cynnwys: rhaglen genedlaethol Llywodraeth Cymru i adfer mawndiroedd, gweithgareddau rheoli perygl llifogydd, y rhaglen i adfer dulliau cynaliadwy o dynnu dŵr, gan gynnwys adolygiad o fesurau lliniaru cyrff dŵr a addaswyd yn sylweddol, y prosiect galw aml-sector ar gyfer mesurau arbed dŵr, a gwaith Waterwise ar leihau'r defnydd o ddŵr.

- Dyma'r mesurau:Cyflawni'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, sy'n cydlynu'r gwaith o adfer mawndiroedd ledled Cymru gyda'r nod o ddal a storio carbon, rheoleiddio nwyon tŷ gwydr a dŵr, ac adfer a chynnal bioamrywiaeth. Yng Nghymru, mae llawer o fawndiroedd hefyd yn ardaloedd gwarchodedig a/neu'n ecosystemau sy'n ddibynnol ar ddŵr daear.

- Cyflawni ymyriadau fel gwella cynefinoedd yn y sianel sy'n lliniaru effeithiau tynnu dŵr ar yr amgylchedd dŵr drwy Raglen Genedlaethol yr Amgylchedd.
- Gwella effeithlonrwydd defnyddio dŵr i leihau'r angen am dynnu dŵr ychwanegol yn y dyfodol.

**Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill ar sut y dylem ni fynd i'r afael â'r materion hyn mewn Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd?**

**Ticiwch pa fater(ion) y mae eich ateb yn ymwneud ag ef/nhw**

**addasiadau ffisegol,**

**llygredd o ardaloedd gwledig,**

**llygredd o drefi**

**dinasoedd a thrafnidiaeth**

**llygredd o fwyngloddiau segur**

# Cemegion

Gall cemegion niweidiol o weithgarwch dynol fynd i mewn i'r amgylchedd trwy ffynonellau megis dŵr ffo o ffyrdd, dŵr gwastraff, dyddodiad o aer llygredig, a gweithgareddau amaethyddol. Mae Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn cynnwys paramedrau ansawdd cemegol yn seiliedig ar system gynhwysfawr sy'n cyfrif am dros 150 o sylweddau sydd â gwybodaeth sefydledig am risg bosibl i'r amgylchedd.

## Halogion sy'n dod i'r amlwg

Mae llygredd anthropogenig o gemegion yn newid yn gyson wrth i sylweddau newydd gael eu cynhyrchu, eu defnyddio a'u rhyddhau i'r amgylchedd yn dilyn datblygiad cyson cymdeithas ddynol. O ganlyniad, yn ogystal â'r rhestr sefydledig o sylweddau mewn deddfwriaeth bresennol, mae angen asesu ystod ehangach o gemegion sydd yn yr amgylchedd. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, gynhyrchion fferyllol, cynhyrchion cosmetig, plastigwyr, cyffuriau adloniant a bioladdwyr.

## Crynodeb o'r camau gweithredu cyfredol

Mae'r rhan fwyaf o gemegion niweidiol wedi bod yn destun mesur rheoli sydd wedi lleihau eu potensial i lygru dros y blynyddoedd. Serch hynny, mae methiannau o dan Reoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o hyd ar gyfer 14 o sylweddau gwahanol yng Nghymru, gan gynnwys metelau o fwyngloddiau segur a sylweddau etifeddol gyda rheolaethau ond cyflymder adfer araf, nad ydynt eto'n cyrraedd statws da.

Mae CNC wedi datblygu dull blaengar sy'n gallu canfod dros 2,500 o halogion sy'n dod i'r amlwg ar y lefel sydd islaw rannau fesul triliwn (nanogram fesul litr). Yna caiff sylweddau eu hasesu o ran risg yn seiliedig ar ddosbarthiad a pherygl o'r lefelau a ganfuwyd, ac mae sylweddau sydd wedi'u rhoi ar y rhestr fer yn dod yn ymgeiswyr posibl i'w hintegreiddio yn y fframwaith rheoli dŵr presennol. Serch hynny, gall ymchwiliadau pellach ac ystyriaethau ar gyfer camau unioni ddechrau cyn gynted ag y bydd tystiolaeth gynnar o risg yn dod i'r amlwg. Mae enghraifft o hynny yn cynnwys trafodaethau â sefydliadau perthnasol ar gyfer rheoli meddyginiaethau milfeddygol a ddefnyddir i reoli chwain anifeiliaid anwes.

# Plastigion a microplastigion

Commented [JM1]: Update picture in line with english

Mae plastigion a microplastigion yn cael eu cydnabod fel problem eang ac maent yn cael effaith niweidiol ar natur a bodau dynol. Mae plastigion yn dadelfennu'n araf yn yr amgylchedd a gall organebau byw gael eu niweidio wrth iddynt fynd yn sownd mewn gwrthrychau plastig, neu eu bwyta. Mae microplastigion yn cael eu rhyddhau i'r amgylchedd fel gronynnau bach neu'n cael eu creu wrth i wrthrychau plastig mwy ddadelfennu. Mae microplastigion i'w cael yn afonydd, llynnoedd a moroedd Cymru yn ogystal ag mewn bywyd gwyllt. Gall cemegion a geir mewn microplastigion, yn ogystal â halogion tocsig sy'n cronni arnynt, effeithio ar organebau sy'n byw yn ein dyfroedd.

Mae gronynnau yn dadelfennu pellach yn arwain at nano-blastigion sydd hyd yn oed yn llai, sydd mewn egwyddor, yn ogystal â'r risgiau sy'n gysylltiedig â microblastigion, yn gallu torri i mewn i wal gell unrhyw organeb, gan arwain at effeithiau pellach. Ar hyn o bryd, nid yw CNC yn monitro microplastigion gan nad yw'n ofyniad deddfwriaethol. Mae ymchwil arall wedi nodi microplastigion sy'n bresennol mewn cynefinoedd dyfrol Cymru a'r bywyd gwyllt sy'n byw yno.

## Crynodeb o'r camau gweithredu cyfredol

Daeth Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) i rym yn ystod 2023. Bydd gwella cyfraddau ailgylchu a phrosiect gweithredu tipio anghyfreithlon Cymru hefyd yn helpu i leihau lefelau plastig yn yr amgylchedd.

# Maetholion

Mae ffosfforws a nitrogen yn faetholion hanfodol ar gyfer planhigion ac anifeiliaid. Mewn amodau naturiol, cânt eu rhyddhau'n araf ac ar lefelau isel. Mewn dyfroedd daear, gall gormod o faetholion roi ardaloedd dŵr yfed gwarchodedig mewn perygl o orfod cael triniaeth ychwanegol a chael effeithiau negyddol ar ecosystemau daearol sensitif sy'n dibynnu ar ddŵr daear. Mewn cyrff dŵr croyw a morol, gall gormod o faetholion arwain at dwf cyflymach algâu ac aflonyddwch annymunol i'r ecosystem mewn proses a elwir yn ewtroffeiddio. Mae hyn yn golygu y gallem weld tystiolaeth o fatiau algâu a newidiadau i adeiledd yr ecosystem.

Mae gweithgareddau dynol yn gyfrifol am ryddhau maetholion i'r amgylchedd uwchlaw lefelau naturiol. Gall y maetholion hyn gyrraedd ein dyfroedd drwy'r ffordd rydym yn rheoli'r tir, fel y defnydd o wrteithiau, porthiant anifeiliaid a thail yn ogystal â charthffosiaeth a gollyngiadau dŵr gwastraff.

Yng Nghymru, mae saith ardal warchodedig wedi'u dynodi'n ardaloedd sy'n sensitif i ewtroffigedd o dan y Rheoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol. Ychwanegir terfynau trwydded ychwanegol ar gyfer trin maetholion at ollyngiadau carthffosiaeth mawr i'r dyfroedd hyn.

Gall llawer o'n hardaloedd gwarchodedig sensitif gael eu heffeithio gan lefelau uchel o faetholion. Yn 2024, dangosodd asesiadau cydymffurfedd ar gyfer afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig fod 50% o gyrff dŵr wedi mynd yn uwch na thargedau ffosfforws. Mae asesiadau o gyflwr Ardaloedd Morol Gwarchodedig a gyhoeddwyd yn 2025 yn cynnwys amrywiol fethiannau maetholion ar gyfer nitrogen anorganig toddedig.

## Crynodeb o'r camau gweithredu cyfredol

Bydd llawer o'r camau gweithredu a restrir o dan lygredd o ardaloedd gwledig a dŵr gwastraff hefyd yn mynd i'r afael â phroblemau maetholion. Rhestrir rhai camau gweithredu penodol ar gyfer maetholion isod:

- Cyflawni rhaglen maetholion CNC ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, gan barhau i nodi cyfleoedd a chyflawni ymyriadau i wella ansawdd dŵr drwy'r Byrddau Rheoli Maetholion a phartneriaethau dalgylch.
- Gall maetholion ac algâu effeithio ar ansawdd dŵr crai rhai ardaloedd gwarchodedig dŵr yfed. Lle mae cwmnïau dŵr wedi nodi maetholion/algâu fel sylweddau sy'n cyfrannu at statws "mewn perygl" yr ardal warchodedig dŵr yfed, sefydlir parthau diogelu anstatudol yn y dalgylch. Mae gan bob parth diogelu ar gyfer ardaloedd gwarchodedig dŵr yfed "mewn perygl" gynlluniau gweithredu sy'n amlinellu'r mesurau y bydd y cwmni dŵr a phartneriaid o fewn y dalgylch yn eu cymryd i leihau'r risgiau o driniaeth ychwanegol.
- Mae CNC a phartneriaid wedi bod yn ymgymryd â mesurau dalgylch, gan gynnwys creu lleiniau clustogi torlannol trwy waith plannu a ffensio. Mae hyn yn cael ei ariannu drwy brosiectau LIFE a ariennir gan yr UE, dalgylchoedd â chyfleoedd, a chronfa argyfwng natur a chyfalaf Llywodraeth Cymru.

# Bacteria

Mae dyfroedd a ddynodwyd yn ardaloedd gwarchodedig dŵr ymdrochi ac ardaloedd gwarchodedig dŵr pysgod cregyn yn cael eu monitro a'u gwarchod. Gall rhai bacteria, megis *E. coli* ac enterococci coluddol, sy'n bresennol mewn dyfroedd effeithio ar ddefnyddwyr hamdden fel nofwyr. Gallant hefyd effeithio ar ansawdd pysgod cregyn sy'n achosi salwch pan fydd pobl yn eu bwyta a chynyddu lefelau risg i'n ffynonellau dŵr yfed. Rhaid inni leihau faint o facteria sy'n mynd i mewn i'r dyfroedd hyn lle mae gormod ohonynt a chynnal neu wella lefelau lle rydym yn bodloni safonau perthnasol. Mae dyfroedd ymdrochi yn cael eu monitro a'u dosbarthu o dan Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013, sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr.

Mae'r bacteria fel arfer yn dod o ysgarthion, naill ai ysgarthion anifeiliaid neu ysgarthion pobl. Mae ffynonellau'n cynnwys gollyngiadau dŵr gwastraff o'r diwydiant dŵr a gweithfeydd trin carthffosiaeth preifat ac amaethyddiaeth. Yn 2024, o'r 110 o ddyfroedd ymdrochi a samplwyd yng Nghymru, cyrhaeddodd 108 o'r dyfroedd ymdrochi'r safon ddigonol neu uwch, a dosbarthwyd safon wael i ddau. Mae un ardal dŵr ymdrochi ychwanegol o fewn y rhan o Ardal Basn Afon Dyfrdwy sydd yn Lloegr, a chyflawnodd hon safon ddigonol hefyd.

Mae 15 o ddyfroedd pysgod cregyn dynodedig yn Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru, a dau yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy. Yn 2023, cyflawnodd dau o'r dyfroedd pysgod cregyn y safon facteriol ofynnol tra oedd deg methiant; ni chynhaliwyd digon o waith monitro mewn pum ardal ar gyfer asesiad.

## Crynodeb o'r camau gweithredu cyfredol

Bydd llawer o fesurau sy'n mynd i'r afael â llygredd o ardaloedd gwledig a dŵr gwastraff hefyd yn helpu i leihau lefelau bacteria yn ein dyfroedd. Yn ogystal â hyn:

- Rydym yn gweithio gyda chwmnïau dŵr i leihau nifer y gollyngiadau o orlifoedd storm. Rydym hefyd yn cynnal ymchwiliadau ac yn gweithredu mesurau lleol, fel ffensio i gadw gwartheg allan o gyrsiau dŵr.
- Mewn rhai dyfroedd ymdrochi, defnyddir modelau ansawdd dŵr i roi gwybod i'r cyhoedd pan fo risg uwch o ansawdd dŵr gwael, er mwyn caniatáu iddynt benderfynu a ydynt yn teimlo ei bod yn ddiogel nofio. Mae'r holl wybodaeth, gan gynnwys proffiliau dyfroedd ymdrochi, ar gael ar ein gwefan.
- Gall bacteria effeithio ar ansawdd dŵr crai rhai ardaloedd gwarchodedig dŵr yfed. Lle mae cwmnïau dŵr wedi nodi bacteria fel rhywbeth sy'n cyfrannu at statws "mewn perygl" yr ardal warchodedig dŵr yfed, sefydlir parthau diogelu anstatudol yn y dalgylch. Mae gan bob parth diogelu ar gyfer ardaloedd gwarchodedig dŵr yfed "mewn perygl" gynlluniau gweithredu sy'n amlinellu'r mesurau y bydd y cwmni dŵr a phartneriaid o fewn y dalgylch yn eu cymryd i leihau'r risgiau.

# Rhywogaethau estron goresgynnol

Gall presenoldeb planhigion ac anifeiliaid estron goresgynnol yn ein dyfroedd gael effeithiau ecolegol ac economaidd sylweddol. Unwaith y byddant wedi'u sefydlu, mae rheolaeth yn aml yn rhy ddrud neu'n anymarferol yn dechnegol ac yn aml yn aflwyddiannus. Gall newid hinsawdd effeithio ar ddosbarthiad y rhywogaethau hyn, gan arwain at gynyddu eu hamlder a'u hamrywiaeth yn y dyfodol. Mae llawer o'n hardaloedd gwarchodedig yn agored i gyflwyniad a lledaeniad rhywogaethau goresgynnol. Mae'r rhain yn cynnwys cregyn gleision rhesog yn blocio pibellau mewn ardaloedd gwarchodedig dŵr yfed, presenoldeb clymog Japan yn effeithio ar gyflwr afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, a charpedi o chwistrellau môr mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

## Crynodeb o'r camau gweithredu cyfredol

Mae rhaglenni a gweithgareddau allweddol yn cynnwys y canlynol: Mae gweithredu strategaeth rhywogaethau estron goresgynnol Prydain Fawr, gweithio gyda phartneriaid a chefnogi datblygiad datrysiadau newydd ac arloesol, hyrwyddo ymgyrchoedd Edrych, Golchi, Sychu a Mynd at Wraidd y Mater, a gwella gwybodaeth leol am ddosbarthiad rhywogaethau estron goresgynnol trwy ddefnyddio iRecord ar-lein a systemau cofnodi ffôn clyfar fel INNS Mapper i gyd yn helpu i fynd i'r afael â rheoli rhywogaethau estron goresgynnol.

**Commented [JM2]:** Remove hyperlinks, not currently working

Drwy'r rhain rydym yn gwneud y canlynol:

- Blaenoriaethu camau gweithredu i arafu neu atal lledaeniad rhywogaethau goresgynnol presennol a chael gwared ar y rhain neu gyflwyniadau newydd lle bo modd gwneud hynny.
- Lleihau'r risg a achosir gan rywogaethau estron goresgynnol yn gyffredinol drwy wella bioddiogelwch a chael gwybodaeth leol well am ddosbarthiad ac effaith y rhywogaethau hynny.

**At ddiben yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi amlygu cemegion, plastigau a microblastigau, maetholion a bacteria fel problemau sylweddol yn ogystal â llygredd**

**o ardaloedd gwledig, dŵr gwastraff, trefi, dinasoedd a thrafnidiaeth a mwyngloddiau segur a ddefnyddiwyd gennym mewn Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd blaenorol.**

**Ydych chi'n meddwl bod hon yn ffordd ddefnyddiol o gyflwyno'r materion y dylem eu defnyddio mewn Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn y dyfodol? Ydw/Nac ydw**

**Rhowch unrhyw sylwadau ychwanegol isod**

**Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer sut y dylem ymdrin â rhywogaethau estron goresgynnol mewn Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd?**

**Commented [JM3]:** Missing its free text answer box

# Yr argyfwng hinsawdd

Cafwyd argyfwng hinsawdd ei ddatgan yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru yn 2019. Rydym yn dechrau gweld rhai o effeithiau hinsawdd sy'n newid, gan gynnwys tymereddau blynyddol uwch, cynnydd mewn glawiad, a mwy o oriau o heulwen. Disgwylir i effeithiau newid hinsawdd gynyddu yn y dyfodol, gyda rhagfynegiadau o godiad yn y tymheredd a digwyddiadau tywydd mwy eithafol.

Disgwylir glawiad mwy aml a thrwm yn y dyfodol, a risg uwch o lifogydd cysylltiedig. Gall glaw trwm arwain at gynnydd mewn dŵr ffo o dir i ddyfroedd wyneb, gan ddod â gwaddod a llygryddion cysylltiedig.

Gall stormydd amlach a lefelau môr sy'n codi arwain at ddifrodi a cholli rhai cynefinoedd morol rhynglanwol. Bydd gostyngiad mewn glawiad yn yr haf yn arwain at gyfnodau hirach o brinder dŵr. Gall llifoedd isel gynyddu crynodiadau llygryddion.

Gall tymereddau uwch na'r arfer a llifoedd isel gael effaith ar ein hecosystemau, megis effeithio ar fudo, llwyddiant silio a marwolaethau pysgod. Gallai tymereddau uwch hefyd arwain at fwy o achosion o gordyfiant algâu. Mewn ecosystemau morol, dangoswyd bod tymereddau cynyddol yn newid ecosystemau, gan gynnwys plancton a chyfraddau twf ac aeddfedu pysgod. Gallai tymereddau cynhesach arwain at donnau gwres morol ac amlygiad i dymereddau uchel yn ystod cyfnodau llanw isel. Mae lefelau cynyddol o garbon deuocsid yn yr atmosffer yn arwain at lefelau uwch o garbon deuocsid yn nŵr y môr, gan ei wneud yn fwy asidig.

Mae angen i ni hefyd gydnabod y bydd effeithiau newid hinsawdd yn gwaethygu pwysau eraill.

## Crynodeb o'r camau gweithredu cyfredol

Mae angen i ni gael mesurau yn y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd sy'n wydn i newid, yn rhagweld straen yn y dyfodol, ac yn ystyried effeithiau allyriadau carbon. Bydd angen i bob mesur a gynigir mewn Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd ystyried addasu i newid hinsawdd.

Mae meysydd gwaith allweddol yn y maes hwn yn cynnwys:

- Cyflawni mesurau effeithlonrwydd dŵr i sicrhau diogelwch y cyflenwad dŵr yfed.
- Strategaethau addasu i newid hinsawdd Llywodraeth Cymru a tharged i ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus erbyn 2030.
- Strategaethau addasu i newid hinsawdd Llywodraeth Cymru.
- Mesurau Ardaloedd Morol Gwarchodedig i amddiffyn cynefinoedd storio carbon glas pwysig a nodi cyfleoedd i ehangu cynefinoedd allweddol megis morfa heli a morwellt.
- Cyflawni'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, sy'n cydlynu'r gwaith o adfer mawndiroedd ledled Cymru gyda'r nod o ddal a storio carbon, rheoleiddio nwyon tŷ gwydr a dŵr, ac adfer a chynnal bioamrywiaeth. Yng Nghymru, mae llawer o fawndiroedd hefyd yn ardaloedd gwarchodedig a/neu'n ecosystemau sy'n ddibynnol ar ddŵr daear.
- Cynyddu gorchudd a chysgodi coed torlannol, gwella cynefinoedd yn yr afon a chynefinoedd torlannol, a chysylltu afonydd â'r gorlifdir. Bydd mesurau sy'n gwella gallu pridd i gadw dŵr ar diroedd amaethyddol hefyd o fudd.

# Yr argyfwng byd natur

Mae Cymru yn gyfoethog o ran natur ac yn gartref i fywyd gwyllt gwerthfawr ac unigryw. Fodd bynnag, bu colled sylweddol o ran bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau dros y 50 mlynedd diwethaf. Mewn ymateb i hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng natur yng Nghymru yn 2021. Mae rhywogaethau megis eogiaid yr Iwerydd a gylfinirod wedi dioddef dirywiad difrifol ac mae 18% o'n rhywogaethau mewn perygl o ddiflannu o Gymru, gan gynnwys tegeirian y fign galchog a llygod y dŵr.

Mae gwella a gwarchod yr amgylchedd dŵr o'i ffynhonnell i'r môr yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni rhwymedigaethau cadwraeth natur a bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru a nod uchelgeisiol y Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang, sef gwarchod 30% o'n tir, dŵr croyw a moroedd erbyn 2030.

## Crynodeb o'r camau gweithredu cyfredol

Mae'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn cefnogi cyflawni ymrwymiadau bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru, y DU a byd-eang drwy gyfrannu at wella ansawdd cynefinoedd, creu cynefinoedd a chanlyniadau gwaith adfer ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau sy'n ddibynnol ar ddŵr, gan gynnwys ecosystemau daearol sy'n ddibynnol ar ddŵr daear a'r amgylchedd morol. Mae Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn cynnwys mesurau penodol i gyflawni amcanion cadwraeth ar gyfer safleoedd Ewropeaidd sy'n ddibynnol ar ddŵr (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, a Safleoedd Ramsar fel ardaloedd gwarchodedig o dan Reoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr).

Mae camau gweithredu ar waith ledled Cymru sy'n cyflawni gwelliannau cynefinoedd ar lawr gwlad ac yn amddiffyn cynefinoedd a rhywogaethau pwysig i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur. Er enghraifft: Y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, Pedair Afon LIFE, Rhaglen Adfer Afonydd CNC, Rhaglen Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig,

Eogiaid Yfory, prosiectau'r argyfyngau natur a hinsawdd a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a Natur am Byth.

**Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer sut y dylem ymdrin ag argyfyngau'r hinsawdd a natur mewn Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd?**

**Sut y dylai Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd ystyried addasu i newid hinsawdd?**

# Asesiad Amgylcheddol Strategol, Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mae CNC wedi cwmpasu'r Asesiad Amgylcheddol Strategol, gan ymgorffori ein dull awgrymedig ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, ar gyfer Cynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy a Chynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru. Mae'r adroddiadau cwmpasu yn rhan o'r broses ymgynghori hon (ychwanegwch ddolen). Bydd y cwmpas yn llywio sut rydym yn cynnal yr Asesiad Amgylcheddol Strategol o'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd drafft.

Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn archwilio sut y gallai'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd effeithio ar iechyd pobl, megis trwy ansawdd dŵr a mynediad at ddŵr glân a mannau gwyrdd, gan roi sylw arbennig i sut y gallai'r rhain fod yn wahanol i wahanol grwpiau o bobl, yn enwedig y rhai a allai fod yn fwy agored i niwed neu mewn perygl.

Cynhelir Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd wrth i ni ddatblygu'r cynlluniau drafft.

**Cwestiwn**

**Asesiad Amgylcheddol Strategol**

**A ydych chi'n cytuno â'r meini prawf asesu a nodir yn adroddiadau cwmpasu'r Asesiad Amgylcheddol Strategol?**

**Ydw / Nac ydw**

**A oes unrhyw wybodaeth arall y dylem ei hystyried fel rhan o'r asesiadau?**

***Asesiad o'r Effaith ar Iechyd***

**A oes unrhyw grwpiau poblogaeth agored i niwed (e.e. oedolion hŷn, plant, neu bobl â chyflyrau iechyd presennol ac ati) y credwch y gallai'r cynlluniau effeithio arnynt yng Nghymru?**

**Oes / Nac oes**

**Os oes, rhowch fanylion:**

**A oes unrhyw faterion sy'n ymwneud â llesiant y dylem feddwl amdanynt?**

**Oes / Nac oes**

**Os oes, rhowch fanylion:**

**Y materion rheoli dŵr sylweddol – ein heriau**

Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi nodi'r prif faterion rheoli dŵr sylweddol yr ydym wedi'u nodi yng Nghymru.

- Addasiadau ffisegol
- Llygredd o ardaloedd gwledig
- Llygredd o ddŵr gwastraff
- Llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth
- Llygredd o fwyngloddiau metel segur
- Newidiadau i lif naturiol dŵr a'i lefelau
- Cemegion
- Plastigion a microplastigion
- Maetholion
- Bacteria
- Rhywogaethau estron goresgynnol
- Yr argyfwng hinsawdd
- Yr argyfwng byd natur

**Cwestiwn: A ydych chi'n cytuno â'r heriau hyn?**

**Ydw / Nac ydw**

**Os 'nac ydw', beth sydd ar goll neu beth fyddech chi'n ei newid?**

## Elfennau digidol

Fe wnaethon ni ddarparu gwybodaeth a mapiau ychwanegol mewn map stori cysylltiedig https://gisportal.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/portal/apps/storymaps/stories/3024a6fa7f444cb0956621013b8ea5b0 i'ch helpu i ddeall mwy am y data rydyn ni'n ei gasglu a ble mae'r problemau hyn i'w gweld.

A wnaethoch chi ddefnyddio'r map stori?

Do / Naddo

A oeddech chi'n ei gael yn ddefnyddiol?

Oeddwn / Nac oeddwn

Beth ellid ei wneud i'w wella?

## Cyffredinol

Ble clywsoch chi am yr ymgynghoriad hwn?

Hysbyseb papur newydd, cyfryngau cymdeithasol, ar lafar gwlad, neges e-bost

Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad, a fyddai'n bosibl i chi roi enw eich sefydliad.